OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 1408 (Cy. 248)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Pont Lesneven, Caerfyrddin i Gylchfan Sanclêr, Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Troeon Pedol) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Rhagfyr 2023* |
| *Yn dod i rym* | *22 Rhagfyr 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A40, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys ac wedi rhoi hysbysiad o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Pont Lesneven, Caerfyrddin i Gylchfan Sanclêr, Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Troeon Pedol) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Rhagfyr 2023.

---

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun;

mae i "llain ganol" yr ystyr a roddir i "central reservation" yn Atodlen 1 i Reoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016(**1**).

**Gwahardd troeon pedol**

**3.** Ac eithrio fel y darperir yn erthygl 4, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n mynd naill ai ar gerbytffordd tua'r gorllewin neu ar gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd wneud tro pedol er mwyn mynd i'r cyfeiriad arall drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol cylchfan Pont Lesneven, Caerfyrddin hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol cylchfan Sanclêr, Sanclêr, Sir Gaerfyrddin.

**Esemptiadau**

**4.** Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd wneud tro pedol drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn—

(a) os yw'r cerbyd i'w ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(b) os yw'r person sy'n rheoli'r cerbyd yn gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

**Dirymu**

**5.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Caerfyrddin – Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Troeon Pedol) 1997(**2**) wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 19 Rhagfyr 2023

(**1**) O.S. 2016/362.
(**2**) O.S. 1997/1935.

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru